

'DOLI yn BLODAU'

Rydym yn gobeithio eich bod chi wedi sylwi, wrth ichi barcio'ch car, mynd â'ch ci am dro neu fynd â phethau i'w

aigylchu, ein bod ni wedi gwednewid ffin yr ardd ger maes parcio'r orsaf drenau.

Mae gan aelodau 'Doli yn ei Blodau' ond ychydig o amser i ofalu am yr holl fannau maen nhw'n gyfrifol amdany'n nhw (mae croeso mawr i aelodau newydd ymuno gyda ni bob amser). Roedd y ffin wedi mynd yn fler felly bu inni fynd ati i lunio cynllun!

Bu i Les (Cambrian House) yn garedig iawn alw heibio un bore Sadwrn am 5.50yb!!! gyda'i dyrchwr a thyrchu'r ffin gyflawn. Yna bu i Gyngor Conwy gyflwyno sawl llwyth lori o wrtaith ffres ailgyfansoddedig i'w lenwi. Erbyn hyn mae'r ffin wedi'i wahanu'n chwe llain, gaiff eu trin gan arddwyr unigol, sy'n hawdd i'w gofalu amdany'n nhw. Mae fel Sioe Flodau Chelsea yno, gyda chystadleuaeth gyfeillgar rhwng pawb yn parhau ac mae arddulliau unigol i'w gweld yn datblygu. Os ydych chi'n dymuno bwrw golwg ar y lleiniau, bosib y buasech chi'n dymuno gwybod pwy sy'n gofalu am bob llain.

O'r chwith i'r dde, Liz Roberts a Myfanwy Chapman - Faith Bell, Ty Isaf - Val ac Andy, Greystones - Angie, Penllyn - Shaun a Paul, Prince Llewelyn - Connie, Bron Fedw.

